SUL CYFFREDIN 10

AMOS 7:7-17; SALM 82;
COLOSIAID 1:1-14; LUC 10:25-37

● **Gweddi agoriadol**

Drwy ein hemynau a'n caneuon,
ein gweddi a'n myfyrdod
a'n bywydau yn dod ynghyd,
addolwn di,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Cofleidia ni yn dy gariad
a nertha ein haddoli,
fel y clodforer dy enw
yn y lle hwn a thrwy ein bywyd.

● **Moliant**

Dewisaist y lleiaf oll ohonom
i fod yn broffwydi i ti;
cyffyrddaist eu gwefus
er mwyn iddynt lefaru dy air;
diogelaist hwy
pan gaent eu gwrthwynebu;
nerthaist hwy i wasanaethu.

Rhyfeddwn
y gallet ymddiried cymaint
i bobl gyffredin.
Cawn ein herio
dy fod yn ymddiried cymaint
i ni, dy eglwys.

Dduw rhyfeddol,
bydd y nerth a geisiwn,
y grym yn ein bywyd,
i ni ddatblygu i fod y bobl
yr wyt yn ein herio i fod.

● **Cyffes**
Gelwi arnom i fyw dy fywyd,
i ddilyn lle yr arweini,
i fod dy bresenoldeb ar y stryd,
i ddangos trugaredd i'r tlawd,
cefnogi'r gwan,
cofleidio'r estron
a thywys y crwydriaid i'r deyrnas.
Ac eto mae'n calon yn gythryblus;
ofnwn y dasg,
yn fyddar i'th addewid
i fod gyda ni
ble bynnag yr awn.

Maddau ein hofnusrwydd;
rho heddwch i'n taith
a nerth ar gyfer ein tasg,
er mwyn i ni ddangos dy gariad
wrth fyw a gweithio o ddydd i ddydd.

● Diolch

Gelwi arnom i garu y rheini
rwyt ti'n eu caru,
a rhoddi di eiriau i ni eu dweud.
Gelwi arnom i ddwyn cyfanrwydd
i fywydau toredig,
a rhoddi eiriau i ni eu dweud.
Gelwi arnom i ddwyn cysur
i'r rheini sy'n galaru,
a rhoddi eiriau i ni eu dweud.
Gelwi arnom i ddwyn newyddion da
i'r rheini sy'n chwilio,
a rhoddi eiriau i ni eu dweud.

Diolchwn am dy air,
  dŵr bywiol mewn tywod anial;
dy air,
  yn blodeuo mewn daear sych;
dy air,
  yn dwyn ffrwyth ble yr heuwyd.